# PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU AMGYLCHEDD, ADFYWIO A CYMDOGAETH

## (CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A MICROSOFT TEAMS)

| **Aelodau sy’n Bresennol:** | **Dydd Gwener, 20 Ionawr 2023** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.Pursey** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd T.Bowen** |
| **Cynghorwyr**: | W.Carpenter, A.Dacey, R.Davies, N.Goldup-John, C.James, S.Grimshaw, S.M.Penry, S.E.Freeguard a/ac L.Williams |
| **Swyddogion sy’n Bresennol:** | D.Griffiths, C.Morris, N.Pearce, C.Plowman, M.Roberts, N.Blackmore, N.Chapple, H.Jones a/ac J.Stevens |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr W.F.Griffiths, S.Jones a/ac D.M.Peters |
| **Arsylwyr:** | Cynghorydd Ms Carol Clement-Williams<br>Cynghorydd Matthew Crowley<br>Councillor Heath Davies |

---

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Nododd y Cadeirydd fod aelodau'r Pwyllgor Craffu wedi cytuno i graffu ar yr eitemau canlynol o agenda Bwrdd y Cabinet: Eitemau 12 a 15.

Rhoddwyd diweddariad llafar byr i'r aelodau am y cais llwyddiannus diweddar ar gyfer y Gronfa Codi'r Gwastad ar gyfer Coridor Treftadaeth Cwm Nedd. Bydd angen cwblhau’r gwaith cyn diwedd 2024.

Mynegwyd siom na chyflawnwyd cais llwyddiannus ar gyfer Port Talbot. Fodd bynnag, dywedodd swyddogion y bydd gwaith yn

parhau i archwilio ffrydiau ariannu eraill i geisio gwneud gwaith ym Mhort Talbot.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni chafwyd unrhyw fuddiannau.

3. **YMGYNGHORIAD AR GYNIGION CYLLIDEBOL 2023/24 (ADRODDIAD I DDILYN)**

Cyflwynwyd yr ymgynghoriad ar Gynigion Cyllidebol 2023/24 i'r aelodau, fel y'i cyflwynwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Mynegwyd pryderon am yr arbedion effeithlonrwydd ynni. Nid yw manylion yr arbedion wedi'u hamlinellu'n benodol o fewn y gyllideb. Ymhellach, nodwyd bod cynnydd o 50% mewn costau ynni wedi ei ganiatáu o fewn y gyllideb, ond roedd datganiad hefyd o fewn y cynigion a oedd yn awgrymu y gallai costau gynyddu 162%. Holodd yr Aelodau a fyddai'r arbedion effeithlonrwydd ynni yn ddigon i dalu am y cynnydd posib hwn.

Dywedodd swyddogion eu bod wedi gofyn am gynnal adolygiad ynni gyda chostau manylach i'w cyflwyno ymhen 6-8 wythnos. Bydd hyn yn helpu i nodi arbedion effeithlonrwydd ynni.

Mae astudiaethau dichonoldeb yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd o ran yr adeiladau sydd dan berchnogaeth a rheolaeth y cyngor er mwyn penderfynu a oedd modd eu defnyddio'n fwy effeithlon a sut y gwneir hyn. Bydd hefyd yn asesu a oes modd lleihau'r defnydd o'r adeiladau. Bydd angen gwneud hyn heb gyfaddawdu ar y gwasanaeth a ddarperir.

Cadarnhaodd swyddogion os oes cynigion penodol am oleuadau stryd y byddant yn cael eu dwyn yn ôl gerbron y Cabinet. Bydd hyn yn digwydd yn ystod y flwyddyn ariannol berthnasol, os caiff cynigion eu cyflwyno.

Holodd yr aelodau a oedd cynllun strategol neu gynnig fesul eitem mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd, yn fwy penodol y systemau draenio presennol sydd ar waith yn y fwrdeistref. Amlinellodd y swyddogion y trefniadau presennol a'r camau gweithredu sydd ar waith i geisio lleddfu rhywfaint o'r llifogydd a achosir gan y systemau

draenio. Cydnabuwyd nad oedd rhai o'r problemau wedi'u hachosi gan systemau sy'n eiddo i'r cyngor.

Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai'r Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd ddiweddaredig yn cael ei chyflwyno i'r pwyllgor perthnasol ym mis Medi, cyn ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Amlinellodd swyddogion elfennau o'r Strategaeth DARE (Datgarboneiddio ac Ynni Adnewyddadwy). Nodwyd nad yw'n ymwneud ag adeiladau ffisegol yn unig, mae hefyd yn ystyried ymddygiad staff. Diben y strategaeth yw gweithio tuag at y nod o fod yn sero net erbyn 2030.

Holodd yr Aelodau a ddylid dyrannu cyllideb benodol i newid yn yr hinsawdd. Dywedodd y swyddogion fod yna gyllideb wrth gefn dros y gaeaf y gellir ei defnyddio pan fo angen ymateb i dywydd eithafol. Mae cronfa ar gael yn y gyllideb sydd i ddod i gefnogi strategaeth DARE a newid yn yr hinsawdd. Ar ôl cynnal yr astudiaethau dichonoldeb perthnasol, bydd yr awdurdod yn gallu deall risgiau cysylltiedig yn well a'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar y gyllideb.

Yn dilyn gwaith craffu, nododd yr Aelodau yr adroddiad.

## 4. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Astudiaeth Genedlaethol Archwilio Cymru - Adolygiad Gwaelodlin Datgarboneiddio

Holodd yr Aelodau am y dyddiadau penodol y bydd y strategaethau a amlinellwyd yn cael eu diweddaru, sef

y Strategaeth DARE ddiwygiedig a Chynllun Gweithredu Carbon 2030.

Dywedodd y swyddogion fod adroddiad wedi'i gomisiynu a oedd yn ystyried y bylchau rhwng Strategaeth DARE a Chynllun Gweithredu Carbon 2030. Y cam nesaf yw gwneud rhywfaint o waith gyda'r Ymddiriedolaeth Garbon i ddrafftio cynllun gweithredu a fydd yn cael ei gostio'n llawn. Bydd y cyfarfod sefydlu er mwyn gwneud hyn yn cael ei gynnal ym mis Chwefror. Gall y broses gymryd hyd at 12 mis i'w chwblhau.

O ran strategaeth DARE, bydd angen adnoddau ychwanegol i adolygu'r strategaeth ac i weithredu peth o'r gwaith sero net dros y blynyddoedd nesaf.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

## 5. EITEMAU BRYS

Dim.

## 6. MYNEDIAD I GYFARFODYDD

Mynediad i gyfarfodydd i benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r eitemau canlynol yn unol ag Adran 100A (4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a'r paragraffau eithriedig perthnasol o Ran 4 Atodlen 12A y Ddeddf uchod.

## 7. CRAFFU EITEM/EITEMAU PREIFAT CYN PENDERFYNU

Trosglwyddo Tir ac Adeiladu Uned Fasnachol yn Iard Burrows - Diweddariad (Eithriedig o dan Baragraff 14)

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

**CADEIRYDD**